

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir y Fflint (Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf.)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir y Fflint i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Sir y Fflint wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Sir y Fflint wedi cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Mae gwasanaethau llyfrgell Sir y Fflint bellach yn cael eu darparu gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf. ar ran yr awdurdod lleol. Bu hon yn flwyddyn bontio i'r gwasanaeth, wrth iddo symud i'r model darparu a gweithredu newydd, ac mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Bu buddsoddiad cryf yn y gyllideb deunyddiau yn benodol, gan alluogi cyrraedd y targedau hyn, a gwelliannau yn y ffigyrau defnydd o ran ymweliadau, benthyciadau llyfrau, a nifer y benthycwyr gweithredol. Fodd bynnag, mae heriau amlwg hefyd. Pryder yw nifer isel barhaus y staff cymwysedig o ran datblygiad proffesiynol y gwasanaeth, ac mae cyfyngiadau ariannol yn parhau wrth i'r gwasanaeth geisio cyflawni ei gynlluniau drwy gyllideb sy'n mynd yn llai.

- Cyflwynodd Sir y Fflint ddwy astudiaeth achos yn dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth. Mae'r holl fannau gwasanaeth yn cynnig ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi a drefnwyd ymlaen llaw wedi mwy na haneru o'i gymharu â 2016-17, ac mae'r nifer sy'n cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gostwng.
- Er bod nifer y digwyddiadau / gweithgareddau sydd ar gael wedi cynyddu, mae'r nifer sy'n eu mynychu wedi gostwng, gyda'r perfformiad fesul pen y boblogaeth ymhlith yr isaf yng Nghymru erbyn hyn.
- Mae defnydd cyffredinol, o ran ymweliadau corfforol, benthyciadau llyfrau, a nifer y benthycwyr gweithredol wedi gwella, er bod y defnydd ar y cyfan yn parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n gryf yn y gyllideb deunyddiau, ac yn gyfrannol dyma'r uchaf yng Nghymru; cyflawnir y targedau ar gyfer derbyniadau Cymraeg a derbyniadau cyffredinol.
- Mae lefelau staff wedi cael eu cynnal i gryn raddau, ac mae nifer y staff cymwysedig wedi codi; er hynny mae'r targedau yma wedi'u methu o gryn dipyn, gyda Sir y Fflint yn cofnodi'r lefel isaf o ran staff proffesiynol fesul pen yng Nghymru.
- Roedd cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng, a chynlluniau ar yr arfaeth i leihau cyllidebau ymhellach.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir y Fflint yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Trosglwyddwyd y gwasanaeth llyfrgell o reolaeth yr awdurdod lleol ar 1 Medi 2017, ac mae bellach yn cael ei weithredu gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf., sef Cymdeithas Budd Cymunedol dan berchnogaeth y gweithwyr. Mae hyn yn newid sylweddol i'r llywodraethu, gydag ymgysylltu â chwsmeriaid ac ymgynghori yn rhan annatod o'r broses. Mae cynllun / amcanion strategol y gwasanaeth llyfrgell yn rhan o Gynllun Busnes Aura 2018-2023, ac yn cynnwys amcan penodol 'I gyflawni 12 hawl graidd chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20'.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir y Fflint yn cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:	Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓ Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	✓
DA 10 Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓
DA 11 Mynediad ar-lein:	Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Ni fu newid ar y cyfan ym mherfformiad Sir y Fflint o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid yw Sir y Fflint wedi cwblhau ei arolygon defnyddwyr eto; disgwylir i'r rhain gael eu cynnal ym mis Medi 2018. Nid oedd y gwasanaeth yn gallu cofnodi ffigyrau yn ymwneud â gwerthusiad defnyddwyr o'i arlwy hyfforddiant.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>		38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	<i>amherthnasol</i>		75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir y Fflint ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Gweithgareddau Plant – effaith gweithgareddau'r Pasg ar agwedd plentyn maeth tuag at gymryd rhan, ac yntau wedi canolbwyntio'n ddwys a rhoi cryn ymdrech i ddylunio wy Pasg. Roedd sylwadau cadarnhaol y beirniad wedi atgyfnerthu ei brofiad, ac roedd y fuddugoliaeth (annisgwyl) yn hwb anferth i'w hyder a'i hunan-barch.
- Llyfrau ac Ymarfer Corff – effaith cydleoli llyfrgell a chanolfan hamdden, gyda'r llyfrgell yn darparu lleoliad ymgynghori er mwyn i staff y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio

Cleifion i Wneud Ymarfer Corff fedru cwrdd â chleientiaid, ac ychwanegu gwerth o ran dewisiadau darllen a gwybodaeth am iechyd a lles. Roedd y cleientiaid yn elwa o gael mynediad at adnoddau, a gwasanaethau ehangach y llyfrgell.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir y Fflint ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	64%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	46%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	94%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	89%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	96%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	10.0
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	14	18/22	10	32	238	29
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	118	16/22	15	199	473	162
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	140	19/22	82	228	684	151
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,998	13/22	2,501	4,047	7,014	3,935
b) rhith-ymweliadau fesul pen	334	19/22	243	866	2,211	453
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	139	16/22	100	154	229	127
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	80	8/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen [^]	7	20/22	5	9	14	9
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	14%	22/22	14%	27%	67%	16%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	61	6/21	3	31	196	26
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,057	13/21	40	1,346	11,939	386
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,319	18/21	£7,047	£11,915	£17,771	£10,281

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
b) % ar staff	57%	15/21	44%	63%	75%	59%
% ar adnoddau gwybodaeth	25%	1/21	4%	13%	25%	21%
% ar offer ac adeiladau	11%	4/21	0%	4%	20%	5%
% ar gostau gweithredol eraill;	6%	20/21	0%	18%	37%	15%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	14/20	£0	£338	£17,432	£723
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.69	13/21	£1.24	£1.82	£2.41	£2.24
DA 16 Oriau agor [#]						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.02%	11/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.07%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	3.02%	17/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.37%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Sir y Fflint wedi cwblhau ei arolygon defnyddwyr eto, a'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer Medi 2018. Mae pob llyfrgell sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, gydag iechyd a lles hefyd wedi'i gefnogi'n dda ac mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn gyfeillion dementia. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw, wedi mwy na haneru o'i gymharu â 2016-17, a byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhywfaint o adfyfrio ar y ffactorau yn ymwneud â hyn. Mae'r nifer sy'n cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gostwng yn ystod y cyfnod, gyda'r cyfartaledd fesul pen bellach yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir y Fflint yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'i lyfrgelloedd sefydlog. Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu ei arlwy yn y maes hwn, gan gynnal 829 digwyddiad (wedi codi o 652 yn 2016-17). Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu wedi gostwng ar y cyfan, a'r perfformiad fesul pen ymhlith yr isaf yng Nghymru erbyn hyn. Mae'r defnydd mewn meysydd eraill wedi cynyddu, gyda Sir y Fflint yn un o saith gwasanaeth llyfrgell i gofnodi cynnydd mewn ymweliadau i adeilad llyfrgell, ac yn o bump a adroddodd gynnydd yn nifer y benthyciadau llyfrau (er bod ei fenthyciadau llyfrau oedolion yn dal i fod yn llawer is na'r canolrif). Mae rhith-ymweliadau wedi gostwng, ond mae hyn yn adlewyrchu trosglwyddo'r gwasanaethau ar-lein i wefan newydd Aura, ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu hyrwyddo'r gwasanaethau hyn yn ystod haf 2018. Bu cynnydd calonogol yn nifer y benthycwyr gweithredol, a nodir bod y rhain yn cynnwys defnyddwyr TG, er bod y perfformiad unwaith eto yn parhau i fod yn is na chanolrif Cymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal ei fuddsoddiad mewn adnoddau gwybodaeth, gyda chynnydd yn y gyllideb deunyddiau, ac yn gyfrannol dyma'r uchaf yng Nghymru. Felly mae targedau derbyniadau cyffredinol (DA 9) a'r gofynion ar gyfer gwario ar adnoddau Cymraeg (DA 10) wedi'u cyflawni yn 2017-18. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i fodloni'r gofynion mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau, er bod perfformiad wedi gostwng ychydig ers y ffigyrau ar gyfer 2016-17. Er mwyn sicrhau cysondeb ag awdurdodau eraill y Gogledd, dylid nodi fod y ffigyrau hyn ond yn cynnwys ceisiadau a gyflenwir o fewn y sir, ac nid y rhai hynny sydd wedi'u cyflenwi trwy drefniadau i rannu stoc ledled y chwe awdurdod. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi gostwng ymhellach yn 2017-18, megis lefelau'r defnydd arnynt, ac yn Sir y Fflint y mae'r canran isaf yng Nghymru sy'n manteisio arnynt.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi'u cynnal i gryn raddau, er bod perfformiad yn dal i fod yn is na lefel y targed. Er bod nifer y staff cymwysedig wedi codi, a bod yr holl swyddi proffesiynol bellach wedi'u llenwi, nid yw'r gofynion yma ychwaith wedi'u cyflawni, gyda Sir y Fflint yn cofnodi'r lefel isaf o staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth yng Nghymru. Rhaid i hyn fod yn bryder o ran datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol, er y nodir bod ailstrwythuro staff wedi cyflwyno haen goruchwyllo newydd a fydd yn rhoi modd cael dilyniant gyrfa a chefnogi cynllunio olyniaeth. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i ddiwallu'r gofynion o ran neilltuo amser ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r cyfraniad gan wirfoddolwyr wedi cynyddu ymhellach yn 2017-18, gydag oddeutu 26 o unigolion yn cyfrannu cyfartaledd o 17 awr i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ers 2016-17, a'r lefelau buddsoddi ymhlith yr isaf yng Nghymru. Nodir mewn manau eraill bod cytundeb ariannu Aura gyda'r Cyngor hefyd yn cynnwys gostyngiad o 10% dros gyfnod y tair blynedd cyntaf, a bydd hyn yn gryn her i'r gwasanaeth wrth fynd ymlaen. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi cynyddu, gan adlewyrchu manteision cydleoli, ac mae'r targed wedi'i gyrraedd yn hyn o beth. Fodd bynnag, Sir y Fflint sy'n cofnodi'r lefel uchaf o oriau agor heb staff, a chafodd nifer gymharol uchel o arosfannau'r llyfrgell deithiol eu methu yn 2017-18, naill ai oherwydd methiant cerbydau neu ddiffyg capasiti staff.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Adroddodd Sir y Fflint sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi ac yn cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a sefydliadol, o dan saith nod Llesiant: Cysylltu gwasanaethau, trwy bartneriaethau lleol; hyrwyddo cymunedau Ffyniannus, trwy gyfleoedd dysgu gydol oes; cefnogi cymunedau Gwydn a Chydlynol, trwy hybu lles a hwyluso cysylltiadau cymdeithasol; galluogi cymunedau lachach, trwy ei gasgliadau a'i bartneriaethau iechyd a lles; a hyrwyddo Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg i ffynnu, trwy ddarparu adnoddau o ansawdd uchel a gweithgareddau diwylliannol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Sir y Fflint am y trosglwyddo llwyddiannus ar y gwasanaeth i'r model darparu a gweithredu newydd, gyda ffocws yn y flwyddyn bontio ar hysbysu staff

a chwsmeriaid. Mae arolwg cwsmeriaid cynhwysfawr wedi'i gynllunio ar gyfer Medi 2018, a bydd hwn yn ystyried blwyddyn gyntaf y gweithredu o dan reolaeth Aura. Mae cynlluniau ar gyfer 2018-19 yn cynnwys cryfhau cysylltiadau â phartneriaid iechyd, ac ymchwilio i'r posibiladau ar gyfer cydleoli gwasanaethau ymhellach. Bydd ffocws hefyd ar wella arlwy ddigidol y gwasanaeth, gan gynnal adolygiad o'r seilwaith TGCh cyfredol. Nodir bod heriau ariannol yn parhau, gan fod y cytundeb ariannu gan y cyngor yn gostwng 10% yn ystod cyfnod tair blynedd cyntaf gweithredu Aura; mae cynlluniau i gyflawni'r gofynion hyn yn canolbwyntio ar fentrau i dyfu yn ogystal ag effeithlonrwydd pellach.

6 Casgliad

Mae gwasanaethau llyfrgell Sir y Fflint bellach yn cael eu darparu gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf. ar ran yr awdurdod lleol. Bu hon yn flwyddyn bontio i'r gwasanaeth, wrth iddo symud i'r model darparu a gweithredu newydd, ac mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Bu buddsoddiad cryf yn y gyllideb deunyddiau yn benodol, gan alluogi cyrraedd y targedau hyn, a gwelliannau yn y ffigyrau defnydd o ran ymweliadau, benthyciadau llyfrau, a nifer y benthycwyr gweithredol. Fodd bynnag, mae heriau amlwg hefyd. Pryder yw nifer isel barhaus y staff cymwysedig o ran datblygiad proffesiynol y gwasanaeth, ac mae cyfyngiadau ariannol yn parhau wrth i'r gwasanaeth geisio cyflawni ei gynlluniau drwy gyllideb sy'n mynd yn llai.